

CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	24 Medi 2026
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Blynyddol Craffu 2025-26
Aelod:	Y Cyngorydd Cai Larsen, Cadeirydd y Fforwm Craffu ar gyfer 2025-26
Swyddog Cyswllt:	Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol)

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn yr adroddiad.

CEFNDIR A RHESYMEG

1. Yn unol â'r cyfansoddiad, fe gyflwynir adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor yn ymhelaethu ar y gwaith craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn.
2. Mae'r adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith craffu a wnaed yn ystod 2025-26, wedi ei rannu o dan y penawdau yma:
 - Blaen-raglen Craffu
 - Fforwm Craffu
 - Pwyllgorau Craffu
 - Craffu'r Cynllun Ymateb - Cyfiawnder Trwy ein Dewrder
 - Ymchwiliad Craffu
 - Grwpiau Tasg a Gorffen
 - Craffu Perfformiad
 - Gwerthuso
 - Trefniadau Tracio
 - Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2025/26
 - Edrych ymlaen at 2026/27
3. Pwrpas craffu yng Ngwynedd yw 'Cyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd'. Amlygir yn yr adroddiad blynyddol effaith y gwaith craffu wrth gyflawni yn unol â'r pwrpas.
4. Bydd fersiwn cryno o'r adroddiad yn cael ei lunio er mwyn cyflwyno gwaith craffu 2025-26, mewn modd hawdd i'w ddarllen a chryno.

ATODIADAU:

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Craffu 2025-26

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Trafodwyd cynnwys posib yr Adroddiad Blynyddol yng nghyfarfod y Fforwm Craffu ar 23 Chwefror 2026. Rhannwyd yr adroddiad drafft gydag aelodau Fforwm Craffu 2025/26 i dderbyn eu sylwadau.

SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Mae'r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn rhan greiddiol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ystod y gwaith mae'r pwyllgorau yn ei gyflawni a hefyd yn cadw trosolwg o waith y Cabinet. Rwy'n fodlon fod yr hyn a gyflwynir yn dangos fod y rôl yma yn cael ei chyfarch yn briodol.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.